COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Rhagfyr 12fed, 2018 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), O. Hefin Roberts (Is-gadeirydd), Angharad Correia-Martins, Edward O. Griffith, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams, Cyng. Dewi W. Roberts (Aelod Lleol – Sylwebwr)

YMDDIHEURIADAU

Wyn Griffiths, G. Ian Evans, Cyng. John B. Hughes (Aelod Lleol)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorwyr a ganlyn fuddiant personol:

- Edward O. Griffith a Catherine Ll. Morris yng nghais cynllunio C18/1034/39/LL - Trosi adeilad allanol yn llety gwyliau yn Well Farm, ger Stad Cornwall, Mynytho, oherwydd eu bod yn berchnogion llety gwyliau eu hunain
- Owi Lloyd-Jones yng nghais am gyfraniad ariannol Pwyllgor yr Harbwr Aber-soch, oherwydd ei fod yn aelod ohono.

Gadawant y cyfarfod pan drafodwyd yr eitemau.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dachwedd 14eg, 2018 yn gywir.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C18/0890/39/LL	Adeiladu adeilad i storio peiriannau contractwr amaethyddol – Erw Deg, Cilan **– Cefnogir**
C18/1021/39/LL	Dymchwel estyniad unllawr blaen a chefn presennol a chodi estyniad unllawr blaen a chefn newydd yn eu lle – 6 Pen-y-Bryn, Mynytho **– Cefnogir**
C18/1034/39/LL	Trosi adeilad allanol yn llety gwyliau - Well Farm ger Stad Cornwall, Mynytho **– Cefnogir, gan obeithio y newidir yr enw i un Cymraeg [Datgan Diddordeb – EOG a CLLM]**

C18/1046/39/LL	Gosod balconi blaen, adeiladu estyniad unllawr cefn â balconi uwchben ac addasiadau i gynnwys gosod nen-oleuadau a newidiadau i orffeniad allanol y tŷ – The Homestead, Lôn Hawen, Aber-soch **– Nid yw'n gweddu â'r tai o'i amgylch ac mae'n goredrych yn y cefn**
C18/1048/39/LL	Adeiladu estyniad yn cynnwys codi uchder y to ac addasiadau – Bryn Rhedyn, Bwlchtocyn **– Cefnogir ond, mynegwyd na ellid cymharu'r dyluniad presennol â'r bwriadedig**
C18/1049/39/LL	Dymchwel cwt glan y môr presennol a chodi un newydd (adnewyddu Caniatâd C12/1299/39/LL) – Cwt Glan y Môr Traeth Marchros **– Cefnogir ar yr amod y cedwir at fesuriadau'r cwt gwreiddiol – fe'i dymchwelwyd eisoes – ac y dylai fod yr un gwneuthuriad, gan ei fod yn sefyll allan ar safle ar ei ben ei hun**
C18/1069/39/LL	Porth newydd, estyniad i'r modurdy, to dyfnach a ffenestri gromen – The Wheel House, Aber-soch **– Cefnogir**
C18/1070/39/LL	Mynedfa gerbydol a thrac – Llwyndu, Lôn Sarn Bach, Aber-soch **– Cefnogir**
C18/1091/39/TC	**Gwybodaeth Bersonol Cynghorwyr –** Tystysgrif Cyfreithloni Defnydd ar gyfer estyniad cefn presennol, anecs gwyliau hunan gynhaliol a modurdy domestig ar wahân – Heulwen, Llangian

5. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach parthed y nawdd.

ii) Ailgysylltwyd â'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd i'w hysbysu mai caffi â byrddau allan ydyw caffi Marchros. Atebodd drwy ddweud fod sefyllfa'r eiddo hwn yn un sydd yn destun pryder am sawl rheswm megis nad yw'r lle'n addas ar gyfer gweithgareddau trwyddedu. Nid oes Trwydded Eiddo ar gyfer y busnes ac, o ganlyniad, ni ddylid gwerthu alcohol yno dim ond mewn perthynas â digwyddiad arbennig a gynhelir dan Rybudd Digwyddiad Dros Dro; bwriada gadw llygad ar beth a gynhelir yno.

b) **10. Gohebiaeth: d) Cefnogaeth Gorfforaethol – Hunan*iaith***
Trefnir dosbarthu'r pecynnau o amgylch Aber-soch cyn gynted â phosibl.

c) **10. Gohebiaeth: a) Un Llais Cymru: vi) Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref**
Ni chafwyd cyfle i ddarllen Adroddiad Terfynol y Panel.

ch) **13. Gohebiaeth: c) Corn Tanrallt**
Atgyweiriwyd a phrofwyd yr uchod yr wythnos diwethaf ond, ni dderbyniwyd anfoneb hyd yma.

d) **13. Gohebiaeth: ch) Menter Môn – Wi-fi Cymunedol Cyhoeddus**
Mynychodd Rachel Roberts a Paul Sandham y cyfarfod am wyth o'r gloch i roi sgwrs am y cynllun. Gobeithir dechrau ar y cytundebau â'r busnesau a gosod yr offer ddiwedd Ionawr/dechrau Chwefror. Diolchwyd iddynt am roi o'u hamser ar ôl bod yng Nghyngor Tref Pwllheli cyn dod atom.

7. **MYNWENT**

a) **Mainc Goffa**
Ni osodwyd y fainc hyd yma.

8. **CAEAU CHWARAE**

a) **Offer Newydd**
Gosodwyd y ffens erbyn hyn – taclusodd ochr y ffordd gryn dipyn. Penderfynwyd atal y gwaith o osod y trac beiciau oherwydd dechreuwyd ar y gwaith gan is-gontractwr i Caloo yng nghanol y glaw mawr a gafwyd yr wythnos diwethaf a chysylltir â'r swyddog i ofyn iddo ymweld â'r safle.

b) **Archwilio Coed yr Allt**
Ni chysylltwyd â'r arbenigwr coed hyd yma.

c) **Paentio'r Offer**
Ni dderbyniwyd anfoneb am y gwaith.

9. **CYFRIFON**

a) **Archwiliad Ariannol – Allanol 2017 – 2018**
Derbyniwyd yr eglurhad a ganlyn oddi wrth BDO:
'Yr esboniad a roddwyd am y cynnydd yn y costau cyflog ym mlwch 4 y ffurflen flynyddol oedd "cynnydd yng nghostau'r clerc" ac fe godwyd mater gennym yn seiliedig ar yr esboniad hwn. Yn seiliedig ar yr wybodaeth isod mae'n ymddangos fod y mater wedi cael ei godi yn sgil camddealltwriaeth.
Mewn perthynas â rhan 2 y cwestiwn, yn seiliedig ar eich atebion yn yr atodiad sydd wedi'i atodi, dylai'r datganiad yng nghwestiwn 3, *"Mae'r Cyngor wedi sicrhau bod ganddo rwymedigaeth gyfreithlon i dalu rhodd arian gwasanaeth i gyflogeion"* fod wedi ei groesi allan.
Derbyniwyd anfoneb (£416.00) oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru am yr archwiliad – cysylltwyd â BDO i ofyn am eglurhad, gan ei fod gryn dipyn yn uwch na'r llynedd.
Derbyniwyd e-bost oddi wrth Mabon ap Gwynfor ar ran Helen Mary Jones a Llŷr Gruffydd, Aelodau'r Cynulliad, yn atodi holiadur byr ar drefn archwilio BDO yn dilyn derbyn cwynion oddi wrth gynghorau lleol - fe'i llenwir.

b) **Cyllideb/Gwariant 2019 – 2020**
Gosodwyd y gyllideb – gweler y copi.

c) **Mainc Sarn Bach**
Penderfynwyd cymharu meinciau gwahanol gwmnïau cyn archebu.

ch) **Awgrymiadau'r Is-bwyllgor Ariannol**
Derbyniwyd llythyrau diolch.

d) **Terfyn Gwariant Adran 137 2019 – 2020**
£8.12 yw'r swm priodol ar gyfer 2019 – 2020.

dd) **Tâl Aelodaeth Cymdeithas y Clercod (SLCC)**
Adnewyddir yr aelodaeth am £136.00 – gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

e) **Praesept 2019 – 2020**
Penderfynwyd ei gadw yn £50,000.

f) **The Pensions Regulator**
Llythyr, er gwybodaeth, am y cynnydd yn y cyfraniadau.

10. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**
Ni dderbyniwyd ateb i'r holl ymholiadau a wnaed dros y misoedd diwethaf er anfon llythyr arall (Hydref 20fed) yn eu rhestru, gan ofyn yn garedig am ymateb cyn cyfarfod heno.

b) **Gwrthwynebiad i Gais Cynllunio Coed yr Afon, Aber-soch**
Copi, er gwybodaeth, o lythyr gwrthwynebu cymdogion yr uchod.

c) **Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Ganllawiau Atodol - Tai Fforddiadwy, Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy, Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid**
Ymgynghoriad pellach ar yr uchod – dyddiad cau Ionawr 31ain, 2019.

ch) **Sied Amaethyddol Cim, Bwlchtocyn**
Mynegwyd pryder am faint yr uchod - credir ei bod gowlas a hanner yn fwy na'r hyn a ganiatawyd; ysgrifennir i fynegi'r pryder.

d) **Dymchwel y Shanty, Pen Bennar**
Derbyniwyd cwynion fod yr adeiladwyr yn taflu gwastraff a gliriwyd o'r tir i'r môr. Cysylltwyd â Chyfoeth Naturiol Cymru ac atebwyd – er nad ymwelodd swyddog o Gyfoeth Naturiol Cymru â'r safle – drwy ddweud y derbyniodd air swyddogion Cynllunio ac y delir â'r mater fel digwyddiad lefel isel... O ganlyniad, rhoddwyd cyngor a chanllaw dros y ffôn ac mewn llythyr i'r cwmni adeiladu; penderfynwyd ateb i fynegi anfodlonrwydd y Cyngor.

11. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Y Fach – Cynllun a Chyfyngiadau Parcio**
Ni fwriada'r wraig a wrthwynebodd ei dynnu'n ôl ac, o ganlyniad, bydd rhaid i'r mater fynd i'r Pwyllgor Ardal am benderfyniad.

b) **Bin Baw Ci ym Marchros**
Derbyniwyd cais am osod un yn y maes parcio – ymwelir â'r safle i weld a oes angen un ychwanegol at yr un a osodwyd ar yr allt ychydig fisoedd yn ôl.

12. **MATERION HAWLIAU TRAMWY**

a) **Torri'r Llwybrau**
Ni dderbyniwyd cydnabyddiaeth nac ymateb oddi wrth Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramor, i'r cynnig o ymweld ag o ym Mhwllheli i drafod ail-gategoreiddio'r llwybrau ar gyfer hysbyseb tendr 2019 ymlaen.

13. **BRIGÂD DÂN ABER-SOCH**

Mynegwyd pryder am sefyllfa bresennol yr uchod – deallir nad yw ar gael ar benwythnosau ac y dibynnir ar un Nefyn. Ychwanegwyd mai saith ymladdwr sydd yma yn hytrach na'r deuddeg arferol; penderfynwyd ysgrifennu i fynegi'r pryder a phwysleisio y dylai'r Gwasanaeth Tân recriwtio mwy'n lleol (anfonir copi at Cyng. John B. Hughes gan ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Tân hefyd).

14. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Bwletin mis Tachwedd***
Nid oedd dim o bwys i'w argraffu y tro hwn.

ii) ***Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor***
Rhaglen ar gyfer y cyfarfod a gynhelir heno - ymddiheurwyd eisoes.

iii) ***Sesiynau Hyfforddi Ionawr – Mawrth 2019***
Copi, er gwybodaeth, o'r hyfforddiant.

b) **Cylch yr Iaith – Ailstrwythuro Canolfannau Iaith Gwynedd**
Copi o lythyr a anfonwyd at y Cyfarwyddwr Addysg yn mynegi pryder am yr uchod; penderfynwyd ei gefnogi.

c) **Partneriaeth Cofrestr Tai Gwynedd – Ymgynghoriad ar Bolisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd**
Copi o'r uchod.

ch) **Pwyllgor yr Harbwr Aber-soch**
Derbyniwyd cais ariannol i gyfrannu at brynu drysau newydd i ddrysau'r cytiau yn yr Harbwr; penderfynwyd cyfrannu £1500.00.

d) **Calonnau Cymru – Apêl Diffribilwyr i Gynghorau Cymuned a Thref Gwynedd**
Cais i'w hysbysu os oes diffribilwyr yn y gymuned er mwyn uwchraddio ei fasdata a'r Gwasanaeth Ambiwlans. Hefyd, rhoddir hyfforddiant ar eu defnyddio ac adfer (CPR) am ddim, ynghyd â sesiynau sgrinio'r galon i ddod o hyd i annormalaethau. Cysylltwyd i fynegi siomedigaeth mai uniaith Saesneg oedd y cais, gan feddwl mai elusen yn cynrychioli Cymru ydyw a bod y Gymraeg yn iaith weinyddol mwyafrif o gynghorau Gwynedd - cydnabyddiaeth derbyn e-bost yn unig a dderbyniwyd.

15. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C18/0506/39/MG	Materion a gadwyd yn ôl ar gyfer adeiladu tŷ annedd a ffordd fynediad newydd – Tir ger Gilfach Goed, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0715/39/LL	Estyniad deulawr gromen, ffenestr gromen a balconi i'r blaen ac estyniad unllawr blaen i'r modurdy presennol ac addasiadau allanol i'r eiddo **–** 68 Cae Du, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C18/0772/39/LL	Newid defnydd siop (A1) i werthu bwyd poeth i'w fwyta allan (A3) – Hideaway, Stryd Fawr, Aber-soch **– Gwrthodwyd**

C18/0865/39/LL	Cais Diwygiedig – Estyniad ac addasiadau i'r tŷ yn cynnwys codi lefel to a gosod ffenestr gromen cefn – 4 Cae Du, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0892/39/LL	Grisiau allanol newydd i'r cefn, ychwanegu canllaw o amgylch to fflat i'r cefn gan greu balconi ac ychwanegu drysau bi-fold o'r gegin yn lle ffenestr – Cyn Fanc NatWest, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0928/39/LL	Estyniad unllawr cefn â balconi uwchben ac addasiadau i godiad y to er caniatáu mwy o ddefnydd o'r llawr cyntaf (dim cynnydd mewn uchder to) ac adnewyddu **–** Koppers, Lôn Tŷ Gwyn, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C18/0945/39/LL	Estyniad unllawr cefn ac addasiadau **–** Tyddyn Talgoch Isa' Barn, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**
C18/0958/39/LL	Codi porth ac estyniad llawr daear blaen – 95 Cae Du, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0959/39/LL	Adeiladu estyniad llawr cyntaf uwchben modurdy presennol, cyfnewid y modurdy i fod yn ystafell gemau, gosod canllaw gwydr o amgylch to fflat yn lle waliau parapet, ynghyd ag addasiadau - 264 Cae Du, Aber-soch **- Caniatawyd ag amodau**

CEISIADAU A DYNNWYD YN ÔL

C18/0926/39/LL	Adeiladu dau dŷ fforddiadwy – Tir ger Drws y Llan, Llanengan

16. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Rhagfyr (Rh/S 002190) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Casglwr Trethi – £5.14 (Rh/S 002189 – Talu Wrth Ennill)
b) Melin Goed a Llifio Glasfryn – £448.20 (Rh/S 0020191 – Coed Nadolig)
c) Jewson Ltd – £30.00 (Rh/S 002192 – Clo Drws Toiled)
ch) Gwynfor Hughes, Ffensio Llŷn – £5418.00 (Rh/S 002193 – Ffens Cae Chwarae Aber-soch)
d) Canolfan Gymdeithasol Llanengan – £130.00 (Rh/S 002194– Llogi Ystafelloedd)
dd) Cyngor Gwynedd – £1035.84 (Rh/S 002195 – Gwagio Biniau Baw Cŵn)
e) R.W. Griffith – £120.00 (Rh/S 002196 – Torri Coed Helyg Cae Chwarae Mynytho)
f) Dŵr Cymru – £200.64 (Rh/S 002197 – Cyflenwad y Toiledau)
ff) Cymdeithas y Clercod (SLCC) – £136.00 (Rh/S 002198 – Tâl Aelodaeth y Clerc)
g) Swyddfa Archwilio Cymru – £416.00 (Rh/S 002199 – Archwiliad Ariannol 2017-2018)
ng) Pwyllgor yr Harbwr Aber-soch – £1500.00 (Rh/S 002201 – Cyfraniad at Ddrysau)
h) E-on – £31.63 (D/U – Trydan y Toiledau)

Derbyniadau

a) Toiledau – £15.00 (Tâl Mynediad – £8.50, £6.50)
b) Cyngor Gwynedd – £2438.00 (Ad-daliad Torri'r Llwybrau)

17. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Ionawr 9fed, 2019 am saith o'r gloch